**Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ARD 10-01(p3)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 6 Mehefin 2001 |
| **Amser:** | 2.00pm hyd 4.55pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

## SECTORAU AMGEN

### Diben

1. Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried y cynigion a roddwyd gerbron gan Adran Amaethyddiaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru (NAWAD) a chyrff eraill sy’n bartneriaid ynghylch datblygu’r sectorau pysgod, coetir ffermydd a garddwriaeth yng Nghymru.

### Crynodeb/Argymhellion

2. Ers cwblhau’r astudiaeth Coleg Amaethyddol yr Alban (SAC) y llynedd, bu rhagor o waith ar y gweill i ddatblygu canfyddiadau’r adroddiad ac rydym bellach wedi llunio’n cynigion terfynol ar gyfer pob un o’r sectorau.

### Cefndir

3. Ym mis Rhagfyr 1999 comisiynodd NAWAD ynghyd ag Uned Polisi Gwledig Awdurdod Datblygu Cymru astudiaeth o’r sectorau amgen hynny sydd fwyaf tebygol o fod yn fasnachol fanteisiol i ffermwyr Cymru. Cynhaliwyd yr astudiaeth gan SAC Agro Industrial Research Services yng Ngholeg Amaethyddol yr Alban, ar y cyd â thîm o arbenigwyr lleol yng Nghymru.

4. Diben yr astudiaeth oedd helpu’r Cynulliad i benderfynu pa sectorau y dylid eu targedu nesaf o dan y Strategaeth Bwyd-Amaeth, yn sgil lansio’r Cynlluniau Gweithredu ar gyfer y tri phrif sector, sef cig oen a chig eidion, cynnyrch llaeth a bwydydd organig. Gofynnwyd i’r ymgynghorwyr gynnal astudiaeth gymharol o botensial masnachol y sectorau a ganlyn:

- garddwriaeth, yn arbennig garddwriaeth organig ar raddfa cae;
- ffermydd pysgod gan gynnwys rhywogaethau’r môr a dwr croyw;
- prosesu pysgod a physgota er adloniant;
- cnydau amgen gan gynnwys cnydau ffeibr megis llin a chywarch;
- biomas, ac yn arbennig goedlannau cylchdro byr;
- rheoli coetir ffermydd.

5. Mae argymhellion yr adroddiad, a gyflwynwyd i’r Pwyllgor hwn ar 7 Mehefin 2000, yn nodi pedwar

maes sy’n cynnig cyfle i ffermwyr arallgyfeirio a chwilio am incwm o ffynonellau eraill yn y dyfodol:

- Pysgod;
- Datblygu Coetiroedd;
- Biomas;
- Garddwriaeth gan gynnwys garddwriaeth organig.

**Ystyriaeth**

6. Mae’r rhan hon o’r papur yn trafod pob sector yn ei dro.

**Pysgod**

7. Y nod strategol fydd cadw a chreu swyddi yn y diwydiant pysgota yng Nghymru drwy fanteisio i’r eithaf ar y potensial a chreu cyfleoedd newydd.

8. Ymhlith y meysydd allweddol y mae angen eu datblygu mae:

- Helpu’r diwydiant pysgota yng Nghymru i arallgyfeirio;
- Hyrwyddo buddsoddi mewn ffermydd pysgod, ac yn arbennig mewn prosiectau’n ymwneud â ffermio rhywogaethau pysgod y môr. Yn Ynys Môn yma yng Nghymru y mae un o’r ffermydd pysgod mwyaf technolegol flaengar yn y byd. Mae yna botensial i ddatblygu’r safle hwn a safleoedd eraill yng Nghymru i greu diwydiant ffermydd pysgod deinamig. Mae’r wlad mewn sefyllfa dda i fanteisio ar y technolegau diweddaraf a chynnig arweiniad o ran ffermio rhywogaethau pysgod y môr sydd dan bwysau yn eu cynefin;

- Annog prosiectau’n ymwneud â phrosesu pysgod ac sy’n ychwanegu gwerth at rywogaethau pysgod y môr a physgod sy’n cael eu ffermio. Mae cyfle i ystyried gwaith prosesu newydd sy’n ychwanegu gwerth gan mai ychydig o bysgod a brosesir yng Nghymru. Gellid cefnogi gweithgareddau hyrwyddo a marchnata;
- Annog hyfforddiant galwedigaethol priodol sy’n arwain at gymwysterau cydnabyddedig;
- Meithrin cysylltiadau rhwng twristiaeth a’r diwydiant pysgota yng Nghymru. Bydd hynny’n cynnwys gwella stociau pysgod, adfer cynefinoedd sydd wedi’u difrodi a gwella’r ffordd y caiff gwyliau a mannau pysgota yng Nghymru eu marchnata.

**Datblygu Coetiroedd a Biomas**

9. Bydd y strategaeth Datblygu Coetiroedd arfaethedig yn cynnwys coetir ffermydd, yn goed conwydd a llydanddail, a phlannu coed newydd ar ffermydd. Bydd trafod hefyd ar gyfleoedd i ddatblygu coed cysgod, amaethgoedwigaeth a biomas. Yr elfennau allweddol fydd:

*10. Ychwanegu gwerth at goetir ffermydd presennol a newydd:*

- Dod o hyd i farchnadoedd newydd posibl ar gyfer cynhyrchion ac is-gynhyrchion coed caled a meddal a gynhyrchwyd ar ffermydd gan gynnwys opsiynau ehangach megis twristiaeth;
- Datblygu strategaeth a fydd yn cynnwys gwaith datblygu'r farchnad sydd ei angen yn y sector hwn. Bydd yn rhaid i'r strategaeth annog ffermwyr i blannu mwy o goed a'u rheoli, gan fod angen marchnadoedd Cymreig cryfach a mwy cyson er mwyn bod yn sicr o wneud elw.

*11. Cyfle i blannu coed newydd ar ffermydd:*

- Graddfa cae – plannu mewn cae(au) ymylol neu fannau ymylol eraill (e.e. ar dir rhedyn) neu arwynebeddau mawr er mwyn gallu ad-drefnu;
- Coetiroedd cyflenwol – arwynebeddau bach sy'n fanteisiol i'r fferm o ran cysgod, gorchudd hela neu hamddena.

12. Coetir fel ffynhonnell ynni adnewyddadwy:

- Cydweithio â chyrff allweddol yn y diwydiant i ddatblygu marchnadoedd adnewyddadwy;
- Defnyddio adnoddau coetir presennol gan gynnwys is-gynhyrchion coedwigaeth, plannu rhywogaethau coetir newydd a choedlannau cylchdro byr/canolig;
- Datblygu cyfleoedd ar gyfer nifer fach o losgfeydd mwy ar sail ranbarthol a mynd i'r afael â chyfleoedd i gyflenwi gwres i adeiladau cyhoeddus;
- Datblygu cyfleoedd i ddefnyddio llosgfeydd sy'n cynhyrchu gwres ar raddfa lai er mwyn helpu cymunedau gwledig ac ati;
- Cysylltu â datblygiadau sectoraidd eraill megis garddwriaeth i gyflenwi gwres i dai gwydr a ffermydd pysgod.

13. Penderfynwyd canolbwyntio ar ddatblygu biomas yn y strategaeth Datblygu Coetiroedd ar ôl trafod yr opsiynau biomas yn fanwl â'r Comisiwn Coedwigaeth ac Uned Cynnal Technoleg Ynni (ETSU) y DTI. Cytunwyd bod yr opsiynau mwyaf ymarferol ar gyfer Cymru yn y tymor byr i'r tymor canol yn seiliedig ar goetiroedd (gwastraff coetir, is-gynhyrchion coed, coed diamedr bach ac ati) gyda choedlannau cylchdro byr i ganolig lle bo hynny'n briodol. Mae gwaith ymchwil yn parhau i agweddau eraill, megis Miscanthus a bio-ethanol, ac mae'n debyg na fyddant yn opsiynau masnachol gwirioneddol am gryn dipyn o amser eto. Cytunwyd y byddai Adran Amaethyddiaeth y Cynulliad yn cadw cysylltiadau agos â'r Grwp Rhyng-Adrannol ar Gnydau Ynni (IGEC), y mae gennym gynrychiolaeth arno, er mwyn i'r sector yng Nghymru allu symud i feysydd eraill yn gyflym pe bai cyfle i wneud hynny.

14. Ystyriwyd hefyd farchnadoedd biomas posibl a chytunwyd mai'r hyn a fyddai fwyaf buddiol i ffermwyr fyddai datblygu cyfleoedd i gyflenwi gwres mewn adeiladau cyhoeddus (ysgolion, swyddfeydd awdurdodau lleol, canolfannau cymunedol ac ati). O ran Gwres a Phwer Cyfun, er i bawb gytuno bod hynny'n rhan bwysig o ynni amgen, roedd ETSU a'r Comisiwn Coedwigaeth yn cynghori'n gryf y dylid cysylltu llosgyddion â datblygiadau penodol a all ddefnyddio'r gwres a'r pwer a gynhyrchir (hufenfeydd, gweithfeydd sment, unedau cynhyrchu diwydiannol mawr ac ati).

## Garddwriaeth

15. Rydym yn chwilio am gyfleoedd i gryfhau a meithrin y diwydiant garddwriaeth yng Nghymru lle diffinnir garddwriaeth fel cnydau bwytadwy a chnydau addurnol. Mae hynny'n cynnwys y sectorau confensiynol ac organig. 16. Ymhlith y cnydau bwytadwy a gynhyrchir mae ffrwythau pen coed a ffrwythau meddal, llysiau, cnydau salad, madarch, hopys ac ati. Ymhlith y cnydau addurnol mae blodau wedi'u torri, planhigion gwelyau, bylbiau, blodau alpaidd, blodau parhaol, prysgoed, coed addurnol, stoc planhigfeydd a chnydau arbenigol eraill. Bydd cnydau a pherlysiau a dyfir at ddibenion fferyllol hefyd yn cael eu cynnwys. Dewiswyd y meysydd a ganlyn i'w datblygu:

*16. Cynhyrchu:*

- Cynhyrchu mwy ar raddfa cae er mwyn bod yn fwy effeithlon ac edrych ar gymhellion/ technolegau i gynhyrchu llysiau ar unedau da byw. Bydd hynny'n cynnwys dewis cnydau'n ofalus, a'r rheiny'n gnydau sy'n addas at ddisgwyliadau'r cwsmer gan gynnal ansawdd a niferoedd;
- Ystyried cyfleoedd i gydweithio a chreu mentrau ar y cyd gan gynnwys rhannu peiriannau, cludo cynnyrch i'r farchnad, marchnata a phrosesu;
- Annog ffyrdd o dyfu cnydau dan orchudd neu dan do er mwyn ymestyn y tymor tyfu i gael y prisiau gorau a marchnadoedd cynnar;
- Datblygu cyfleoedd i gynhyrchu ffrwythau meddal organig, yn arbennig yng Ngogledd Ddwyrain Cymru gan fod cyflenwadau'r farchnad ffrwythau organig ymhell o fod yn ddigonol.

*17. Marchnata a Phrosesu:*

- Gwella'r ffordd y caiff cynnyrch garddwriaethol ei farchnata a'i brosesu yng Nghymru;
- Gwella'r cysylltiadau â'r diwydiant arlwyo a thwristiaeth yng Nghymru;
- Meithrin mwy o ddiddordeb mewn bwyd ffres wedi'i dyfu'n lleol a chreu rhagor o gyfleoedd felly i werthu'n lleol mewn sawl ffordd e.e. Marchnadoedd Ffermwyr;
- Datblygu cydweithrediad a chysylltiadau yn y farchnad er mwyn i bobl allu cael cyngor, marchnadoedd go iawn, offer ar gontract, ac ati.

## Datblygu Strategaethau

18. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wrthi'n llunio cynigion terfynol ar gyfer pob un o'r sectorau hyn ac mae'n bwriadu creu grwpiau strategaeth i ddatblygu'r cyfleoedd a nodwyd yn yr astudiaeth SAC, adroddiad Nautilus a dogfennau eraill, a chynnwys profiad y diwydiant ac arferion gorau.

19. Bydd y strategaethau'n ymwneud ag amryw o agweddau ar farchnata, cyngor i'r diwydiant a datblygu pecynnau hyfforddi a fydd yn cynorthwyo ffermwyr sydd am fynd ar drywydd cyfleoedd busnes yn y sectorau hyn. O dan Cyswllt Ffermio, bydd ffermydd arddangos yn cael eu creu ledled

Cymru er mwyn lledaenu technolegau newydd ac unrhyw waith ymchwil a datblygu sydd ei angen er mwyn sefydlu'r sectorau hyn.

20. Bydd cyfleoedd prosesu a datblygu cynnyrch hefyd yn cael eu hystyried ar gyfer pob sector er mwyn sicrhau bod marchnadoedd posibl i'r cynnyrch a bod cyfleoedd yn cael eu datblygu ar gyfer Cymru sy'n cynnig cyfleoedd ac iddynt werth ychwanegol i ffermwyr a chynhyrchwyr Cymru.

21. Cynigir y dylai'r WDA ddarparu cymorth ysgrifenyddol i'r grwpiau Pysgod a Garddwriaeth ac y dylai'r Comisiwn Coedwigaeth roi cymorth i'r grwp Datblygu Coetiroedd.

**Man Cyswllt**

Mrs Terri Thomas, Yr Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio, ffôn 5471.